



Cyngor Dinas Caerdydd

Polisi a Chanllaw yn ymdrin â cheisiadau am drwydded er mwyn gweithredu Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat sy'n hŷn na'r uchafswm oedran presennol - cerbydau mewn cyflwr eithriadol.

1. Yr uchafswm oedran ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat a drwyddedir gan Gyngor Dinas Caerdydd yw:
 - a) Cerbydau salŵn: 6 mlynedd
 - b) Cerbydau arbennig: 10 Mlynedd
 - c) Cerbydau wedi eu hadeiladu at y diben: 10 Mlynedd

2. O 7 Tachwedd 2016, ni ellir hepgor y cyfyngiadau oedran ar gyfer cerbydau unigol ond pan wneir cais ac mae'r Cyngor yn ystyried bod y cerbyd mewn "cyflwr eithriadol" yn unol â'r meini prawf sydd yn hwyrach yn y ddogfen hon.
 - a) Rhoddir unrhyw drwydded sy'n eithrio cerbyd o'r cyfyngiadau oedran am gyfnod o 12 mis fel arfer.

 - b) Cerbydau y mae'r Cyngor yn eu trwyddedu ar hyn o bryd yn unig yr ystyrir eu heithrio o'r cyfyngiadau oedran.

 - c) Mae'n rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Adran Drwyddedu er mwyn ystyried eich cerbyd dan y Polisi Cyflwr Eithriadol nid hwyrach na **6 wythnos** cyn y daw'r drwydded gyfredol i ben. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr ac os yw'r cais yn hwyr, ni roddir trwydded arall ar gyfer y cerbyd.

3. Wrth benderfynu a yw cerbyd mewn cyflwr eithriadol, bydd Swyddog yn ei arolygu a bydd yn rhaid i'r cerbyd gydymffurfio â phob elfen 'safon cerbyd eithriadol' fel y nodir yn Atodiad A.

4. Os nad yw'r cerbyd yn cyrraedd y safon, ni ystyrir ei fod mewn cyflwr eithriadol. Nid yw'n dderbyniol mynd â cherbyd i'w drwsio ac yna ei ailgyflwyno er mwyn ei ystyried eto a gwrthodir unrhyw gais pellach am adnewyddu.

5. Mae'n bwysig i ymgeiswyr ddeall y canlynol:

- Dim ond cerbydau yr ystyrir eu bod mewn cyflwr eithriadol yn ôl Atodiad A a drwyddedir y tu hwnt i gyfyngiad oedran y Cyngor.
- Nid yw'r polisi wedi ei lunio er mwyn i gerbydau cyffredin 'basio' ac mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall hyn cyn gwneud cais.
- Mae'n debygol na fydd y cerbyd yn cyrraedd safon cyflwr eithriadol os oes materion a gynghorwyd yn ystod y prawf MOT diwethaf heb eu trin.
- Os ystyrir bod y cerbyd mewn cyflwr eithriadol, bydd angen prawf MOT safonol hefyd cyn y gellir adnewyddu'r drwydded.

Atodiad A

Y safon a ddefnyddir i benderfynu a yw cerbyd mewn "cyflwr eithriadol".

Ystyrir y safonau canlynol wrth benderfynu a yw cerbyd mewn cyflwr eithriadol ai peidio:

- (1) Dylai'r corff fod mewn cyflwr ardderchog a phob atodyn arno, heb unrhyw arwydd bod y paneli'n dirywio gan oedran, tolciau, crafiadau, marciau gro bach, rhwd nag unrhyw sgriffiadau eraill sy'n tynnu oddi ar olwg y cerbyd. Ni cheir defnyddio tâp i guddio diffygion.
- (2) Dylai cyflwr cyffredinol y paent fod heb bylu, heb golli lliw ac ni ddylai bod dau liw gwahanol sy'n tynnu oddi ar olwg y cerbyd.
- (3) Dylai'r holl oleuadau fod yn sownd ac yn gweithio'n iawn.
- (4) Dylai arwydd to Cerbydau Hacni fod yn sownd i'r cerbyd yn ddiogel ac yn gweithio'n iawn.
- (5) Dylai olwynion fod yn lân, heb farciau mawr na difrod ac ni ddylai fod rhwd arnynt.
- (6) Mae'n rhaid i bob teiar, yn cynnwys yr olwyn sbâr (os oes un), fod yn addas ar gyfer y ffordd.
- (7) Mae'n rhaid i blatiau'r olwynion fod ar y cerbyd ac wedi eu gosod yn ôl manyleb y gwneuthurwr a dylent i gyd fod yr un peth.
- (8) Mae'n rhaid i blatiau rhif cofrestru'r cerbyd fod yn lân, yn glir, yn gyflawn a heb far tynnu a.y.b. yn eu cuddio. Mae'n rhaid hefyd iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

(9) Ni ddylai fod rhwd, tolciau, craciau na sgriffiadau mawr neu amlwg ar y bymperi blaen a chefn a dylent fod wedi eu paentio'n iawn os oes angen hynny a dylent fod yn sownd.

(10) Dylai'r ffenestr flaen fod heb grafiadau na thyllau mân.

(11) Dylai'r sychwyr weithio'n iawn a dylent lanhau'r ffenestr berthnasol yn iawn.

(12) Dylai'r drychau ochr a'r drychau gweld tu cefn fod mewn cyflwr da a'r arwyneb adlewyrchu heb ddirywio. Mae'n rhaid i'r ddau ddrych ochr fod yn bâr.

(13) Dylai griliau'r gwresogydd fod yn sownd ac fel yn y fanyleb wreiddiol.

(14) Dylai pob drws agor yn rhwydd, fod mewn cyflwr da a chyda nifer cywir y bachau a dyfeisiau dal drws (yn cynnwys drysau llithro).

Dylai'r handlenni drws fod wedi eu gosod yn gywir, dylent weithio'n rhwydd ac yn unol â'r fanyleb wreiddiol.

(15) Mae'n rhaid i'r addurn, paneli, seddau a charpedi a.y.b. mewnol fod yno ac mewn cyflwr ardderchog, heb unrhyw ddifrod, arogl, tamprwydd, staen na cholli lliw.

(16) Dylai pob panel gyd-fynd â'r addurn gwreiddiol.

(17) Dylai'r seddau fod yn sownd, yn lân a heb eu treulio'n ormodol. Dylai unrhyw gwrlid sedd fod yr un â'i gilydd, dylent ffitio'n iawn, dylent fod yn lân a heb staen na thyllau crychau, rhwygiadau nac yn pantio.

(18) Dylai pob gwregys diogelwch fod yn lân, heb ddifrod ac yn gweithio'n iawn. Dylai pob gorchudd pwynt angori fod wedi eu gosod yn iawn a dylent gyd-fynd â'r addurn gwreiddiol.

(19) Dylai pob offeryn, ategolyn, blwch llwch a.y.b. fod wedi eu gosod yn iawn a dylent gyd-fynd â'r addurn a bod yn lân.

(20) Dylai'r nenfwd fod yn lân, heb staen na thyllau na rhwygiadau.

(21) Dylai'r holl ffenestri weithio'n iawn ac yn rhwydd.

(22) Dylai'r systemau gwres, dad-stemio ac awyru (yn cynnwys teclynnau rheoli ochr y teithiwr os oes rhai) weithio'n iawn.

(23) Ni ddylai fod gwifrau neu geblau rhydd y tu mewn i'r cerbyd.

(24) Mae'n rhaid i'r cerbyd fod mewn cyflwr mecanyddol ardderchog ac yn addas ar gyfer y ffordd ym mhob agwedd, heb unrhyw gynyddu ar y darnau mecanyddol, y ffrâm, bol y cerbyd na'r corff. Ni ddylai bod arwydd o ddŵr neu olew yn llifo o'r

cerbyd.

(25) Dylai'r cist neu ran storio fod mewn cyflwr ardderchog, yn lân, heb ddifrod nac awgrym bod dŵr yn treiddio.

(26) Os yw cefn y car yn codi, dylai gorchudd y cist fod yn wreiddiol a dylai'r ddau strap codi fod yn sownd.

Cerbydau y gellir mynd iddynt mewn cadair olwyn:

- (27)
- a) drws cefn sengl – mae'n rhaid i hwn agor hyd at o leiaf 90 gradd ac mae'n rhaid gallu ei gloi yn ei le.
 - b) drws cefn dwbl – mae'n rhaid i hwn agor hyd at o leiaf 180 gradd ac mae'n rhaid gallu ei gloi yn ei le.

(28) Mae'n rhaid i wregysau cadair olwyn fod yn lân ac mewn cyflwr da.

(29) Os yw'r cerbyd wedi ei ddylunio ar gyfer ei ddefnyddio gyda rampiau, dylent fod wedi eu storio'n ddiogel a heb eu difrodi, eu hanffurfio a heb ymylon miniog. Mae'n rhaid i'r gorchudd gwrth-lithr fod yno, mewn cyflwr da a heb ei dreulio.

(30) Mae'n rhaid bod gan gerbydau sy'n cynnwys lifft cadair olwyn dystysgrif LOLER sy'n ddilys am gyfnod o chwe mis wedi dyddiad cyflwyno'r drwydded.